

LOGO

Cyfarwyddiaeth Ewrop

King Charles Street

Llundain

SW1A 2AH

www.fco.gov.uk

Cyng. Daniels,
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH

2 Chwefror 2018

Annwyl Gyng. Daniels,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Ionawr at yr Ysgrifennydd Tramor ynglŷn â'r sefyllfa yng Nghatalunia. Rwy'n ymateb ar ran Tîm Sbaen.

Nodaf y pryderon a leisiwyd gan Gyngor Gwynedd yn ei gynnig. Mae Sbaen yn gynghreiriad agos ac yn gyfaill da, y mae ei gryfder a'i undod yn bwysig i ni. Erys y DU yn bendant y dylai cwestiynau sy'n ymwneud ag annibyniaeth Catalonia gael eu datrys trwy'r sianelau cyfansoddiadol a chyfreithiol cywir ac mae'n parhau i gefnogi Sbaen i gynnal Cyfansoddiad Sbaen a rheolaeth cyfraith. Roedd Cyfansoddiad 1978 yn elfen allweddol yn nhrawsnewidiad heddychlon Sbaen yn wlad ddemocrataidd ac fe'i cymeradwywyd gan Sbaen gyfan, gan gynnwys Catalonia. Nid yw'r Cyfansoddiad yn caniatáu i lywodraeth Sbaen awdurdodi ymneilltuad unrhyw ranbarth.

Cyfrifoldeb llysoedd Sbaen yw pennu a yw'r unigolion hynny y cyfeirir atynt yn eich cynnig wedi torri'r gyfraith. Mae gan bob gwlad ddemocrataidd ei rheolau, ei chyfreithiau a'i gweithdrefnau ei hun, sy'n pennu hawliau a chyfrifoldebau. Mae gan arweinwyr gwleidyddol, fel unrhyw un arall, ddyletswydd i ufuddhau i'r gyfraith.

Yr eiddoch yn gywir,

Andrew Kelly

Cyfarwyddiaeth Ewrop